

Tywysogion, Grym a Chynllwynio...

Erbyn hyn daeth darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig, a sefydlwyd ym 1987, yn ddigwyddiad o bwys yng nghalendr Aberystwyth. Bob mis Tachwedd bu cynulleidfau sylweddol, frwdfrydig yn ymgasglu yn neuadd arholiadau Hen Goleg y Brifysgol ar y prom i glywed cyfres o ddarlithiau nodedig a draddodwyd yn raenus. Cyhoeddwyd pob un ohonynt fel pamffledyn gan y Llyfrgell yn ddiweddarach.

Darlithydd yr AWG yn 2001 oedd Mr Hywel Williams, brodor o Fangor a addysgwyd yn Llandeilo, Abertawe a Choleg Sant Ioan, Caergrawnt, lle bu'n dysgu Saesneg a hanes ar ôl graddio. Bu hefyd yn athro ysgol yn Rugby cyn ei benodiad i staff y *Sunday Telegraph*.

Rhoddodd ei gyfnod fel ymgynghorwr y cabinet ar faterion Cymreig yn ystod prif weinidogaeth John Major bersbectif unigryw iddo ar swyddogaeth ymgynghorwr. Rhoddwyd croeso brwdfrydig i'w gyfrol *Guilty Men: Conservative Decline and Fall, 1992-1997* (1998), dadansoddiad o ddirywiad y Blaid Geidwadol fel plaid llywodraeth. Ar hyn o bryd mae Hywel Williams wrthi'n llunio *Cassell's Chronology of World History* a chymar iddo sef *A Short History of the World*.



Mr Andrew Green, Llyfngellydd LIGC, gyda Mr Hywel Williams a'r Dr R. Brinley Jones, Llywydd LIGC

Rhydd llawer iawn o'i golofnau yn y *Guardian* y cefndir hanesyddol i ddigwyddiadau cyfoes, o fewn Prydain a gwledydd tramor fel ei gilydd.

Mewn darlith gyffrous, finio, edrychodd Hywel Williams ar swyddogaeth ymgynghorwr y llywodraeth o amser yr hen Roegiaid, Rhufeiniaid ac Eifftiaid hyd at Brydain a'r Unol Daleithiau yn ein cyfnod ni. Yn rhyfeddol o gyflym a deheuig, cawsom ein cludo o fyd Machiavelli i Rwsia'r Tsariaid, o lys Louis XIV i Henry Kissinger, o Lloyd George i Ay, Brenin yr Aiff, 1323-1319 CC. Rhoddodd hefyd bersbectif craff, gwreiddiol ar waith yr hanesydd Syr Lewis Namier dros Israel.

Bu'r darlithydd yn ymgynghorwr i'r Cabinet yn

ystod cyfnod rhyfeddol John Redwood fel yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru. Yn ei fam ef roedd Redwood yn ystyried 'cwestiwn Cymru' fel 'ymarfer ymenyddol yng ngweinyddiaeth fodern' â'r gallu ganddo i weld y cysylltiadau rhwng

swyddogaethau'r llywodraeth 'yn ystod y dyddiau hynny o ddesbotiaeth etholedig cyn sefydlu'r Cynulliad'.

Fe fydd y rhai hynny a fethodd fynychu'r ddarlith bryfoclyd hon yn falch o ddeall ei bod ar gael mewn print oddi wrth y Llyfrgell.

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Y Ddarlith Flynyddol 2002

Yr Athro R. Merfyn Jones

Ysgol Hanes

Prifysgol Cymru Bangor

Yr Hen Goleg, Aberystwyth

5.30 y.h. Gwener, 1 Tachwedd

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynw'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi, ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; a thâpiau rhaglenni radio a theledu.

Aelodau'r Pwyllgor

Ymgynghorol:

Mr Andrew Green (Llyfrgellydd),
Dr Denis Balsom, Mr Ian Barton,
Yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe,
Miss Beata Brookes, Mr Cynog Dafis
AC, Mr Darron Dupré, Mr Aled
Eurig, Mr Tom Ellis, Mr Gwyn
Griffiths, Mr Adam Higgitt,
Yr Athro Deian Hopkin, Mr Dafydd
Llyr James, Yr Athro Aled Jones,
Mr D Elwyn Jones, Mr D L Jones,
Yr Arglwydd Morgan o Aberdyfi,
Mrs Julie Morgan AS, Yr Athro
Emeritus D. Hywel E. Roberts a
phum aelod o staff LLGC.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â Dr.
J. Graham Jones

Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, Ceredigion, Cymru,
SY23 3BU
Tel: 01970 632878
Fax: 01970 632883
jgj@llgc.org.uk
www.llgc.org.uk/lc/awg_c_awg.htm

'Profiad yr Ymwelydd'

Dan faner 'Profiad yr Ymwelydd', cynllun a ariennir ar y cyd gan Gronfa Trefnadaeth y Loteri, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Llyfrgell, bydd cyfleusterau newydd yn fuan ar gael ar gyfer darllenwyr ac ymwelwyr. Yn ystod 2002 agorir mynedfa ychwanegol ar wastad daear, croesawfan, siop a bwyty, ynghyd ag ardal ddehongli i arddangos eitemau o gasgliadau'r Llyfrgell. Ceir hefyd ardal addysg i'w defnyddio gan ysgolion.

Pan gwblheir ail ran y cynllun yn gynnar ym 2004, bydd gan y Llyfrgell awditoriwm newydd gyda chyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau ynghyd â darpariaeth i arddangos deunydd o'r

Archif Sgrin a Sain a rhai o drysorau amhrisiadwy mwyaf nodedig y Llyfrgell.



Logo newydd LLGC

Ail-gyflunio o fewn LLGC

Ar 18 Ionawr 2002 fe brofodd y Llyfrgell Genedlaethol y newid mwyaf pellgyrhaeddol yn ei strwythur mewnol ers ei sefydlu ym 1907.

Dechreuwyd ar yr ad-drefnu mewnol ym mis Ionawr. Diflannodd yr adrannau curadurol traddodiadol – Llawysgrifau a Chofysgrifau, Llyfrau Printiedig, a Darluniau a Mapiau. Yn eu lle ceir tair adran newydd: Gwasanaethau Casgliadau (Cyfarwyddwr: Gwyn Jenkins), Gwasanaethau Cyhoeddus (Cyfarwyddwr: Dr Rhidian Griffiths) a Gwasanaethau Corfforaethol (Cyfarwyddwr: Mark Mainwaring). Y gobaith yw y bydd y strwythur newydd hwn yn galluogi'r Llyfrgell i ymateb i her y datblygiadau newydd a chyflawni ei swyddogaethau craidd yn fwy effeithiol.

Lleolir yr Archif Wleidyddol Gymreig o fewn Isadran Rheoli Data Archifol (Is-gyfarwyddwr: Glyn Parry) Adran Gwasanaethau Casgliadau. Dr J. Graham Jones, archifydd cynorthwyol yn y Llyfrgell ers blynnyddoedd maith ac arbenigwr ar hanes gwleidyddol yr ugeinfed ganrif, sydd bellach yn gyfrifol am redeg yr Archif o ddydd i ddydd ac am drefnu ei gweithgareddau.

Digido Lloyd George

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol, fel rhan o'r prosiect uchelgeisiol 'Casglu'r Tlysau', ar fin cychwyn digido cyfres hirfaith o ryw 3,300 o lythyrau, 1888-1917, oddi wrth Lloyd George at ei frawd iau William sydd o fewn Papurau William George a brynwyd gan y Llyfrgell nôl ym 1989.

Y bwriad yw microffilmio'r llythyrau gwreiddiol ac yna estyn y microffilmiau ar gyfer defnydd darllenwyr am resymau cadwraethol. Yna bydd y Llyfrgell yn digido'r llythyrau ynghyd â'r disgrifiadau unigol ohonynt a luniwyd rhai blynyddoedd yn ôl.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymholiadau ynglŷn â thelerau derbyn y papurau cyn ymweld â'r Llyfrgell.

Ceir gwaharddiad ar weld neu atgynhyrchu nifer o gasgliadau diweddar yr AWG.

Papurau Syr O. M. Edwards

Lluniwyd catalog terfynol o bapurau helaeth Syr Owen M. Edwards (1858-1920) a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Llyfrgell gan ei ferch-yng-nghyfraith y Fonesig Eirys M. Edwards, Aberystwyth, yng Ngorffennaf 1980.


Ac yntau'n frodor o Lanuwchllyn, addysgwyd Edwards yng Ngholeg y Bala, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a Choleg Balliol, Rhydychen, lle ymunodd â Chymdeithas Dafydd ap Gwilym. Daeth yn gyfaill mynwesol i nifer o Gymry blaenllaw yno gan gynnwys Edward Anwyl, J. Puleston Jones, John Morris-Jones a D. Lleufer Thomas.

Wedi treulio'r flwyddyn 1888-89 ar y Cyfandir, penodwyd O. M. Edwards yn Gymrawd Coleg Lincoln, Rhydychen, swydd y bu ynddi tan 1907. Roedd yn nodedig o gydwybodol fel tiwtor a darlithydd. O 1890 ymlaen dechreuodd olygu nifer o gylchgronau, yn eu plith *Cymru Fydd* (cychwynwyd ym 1890), *Cymru* (1891), *Cymru'r Plant* (1892), *Wales* (1894), *Y Llenor* (1895) a *Heddyw* (1897). Cyhoeddodd hefyd nifer o gyfrolau gan gynnwys ei hanes poblogaidd *Wales* (1901), ac ailgyhoeddodd amryw o glasuron traddodiadol yr iaith Gymraeg. Gwasanaethodd hefyd fel AS Rhyddfrydol Sir Feirionnydd rhwng 1899 a 1900 fel olynnydd Thomas Edward Ellis AS.

O 1907 hyd at ei farw cynamserol ym 1920, Edwards oedd Prif Arolygwr cyntaf Ysgolion Cymru dan Adran Gymraeg newydd y Bwrdd Addysg. Roedd yn gyfrifol am annog dysgu'r iaith Gymraeg a gwnaeth llawer i wella'r awyrgylch o fewn ysgolion ledled Cymru.

Y Papurau

Rhannwyd y papurau'n bedwar grŵp wrth eu catalogio. Ceir o fewn Dosbarth A gohebiaeth, yn fwyaf arbennig llythyrau, 1882-1920, oddi wrth O. M. Edwards at ei rieni, ei frodyr, ei wraig a'i blant (adran AF), a chorff cyfoethog iawn o lythyrau, 1880-1920, oddi wrth rychwant eang o ffigyrau cyhoeddus, llawer ohonynt yn trafod themâu pwysig ym mywyd Cymru (adran AG). O fewn adran AD ceir dyddiaduron, llyfrau



O. M. Edwards: y llun olaf

nodiadau, llyfrau lloffion a choflyfrau, 1875-1920, a gadwyd gan O. M. Edwards.

Yng ngrŵp B ceir ffeiliau gohebiaeth broffesiynol O. M. Edwards, 1907-20, pan oedd yn Brif Arolygwr Ysgolion yng Nghymru, llyfrau nodiadau a gadwodd yn ystod y blynyddoedd hyn yn cynnwys manylion am ymweliadau ag ysgolion unigol, a chofnodion amrywiol, 1892-

1920, yn ymdrin â'i ddiddordebau ym myd cyhoeddi.

Ceir o fewn Grŵp C bapurau teuluol, yn eu plith llythyrau pwysig gan y Fonesig Ellen Edwards, a chan eu plant Haf ac Ifân ab Owen Edwards. Cynnwys Grŵp D yw papurau amrywiol a gasglwyd ynghyd gyda'r bwriad o gyhoeddi cofiant llawn i O. M. Edwards.

LLYFRAU

Margaret Siriol Colley, *Gareth Jones: a Manchukuo Incident* (Newark, 2001)

Cyfrol hynod ddifyr, ffrwyth ymchwil drwyadl, a luniwyd yn raenus gan nith i Gareth Jones. Ceir o fewn y gwaith ganlyniadau ymchwiliadau pellgyrhaeddol yr awdur dros nifer fawr o flynyddoedd i deithiau byd-eang ei hewythr ac amgylchiadau ei farwolaeth wrth ddwylo 'banditiaid' ym Mongolia Fewnol yn Awst 1935. Mae grŵp bychan o'i bapurau yn eiddo i'r Llyfrgell, rhodd gan ei chwaer Miss Gwyneth Vaughan Jones, y Barri, ym 1987. Mae croeso i ddarllenwyr sydd â diddordeb gysylltu â gwefan Gareth Jones ar www.colley.co.uk/garethjones, safle a gynhelir gan ei deulu.

Derbyniadau diweddar



Y diweddar Robin Reeves

Papurau Robin Reeves

Drwy garedigrwydd Mrs Rosanne Reeves, Dinas Powis, derbyniodd y Llyfrgell grŵp sylweddol o bapurau Robin Reeves (1941-2001), gŵr a ddaeth i enwogrwydd yn bennaf fel golygydd hynod lwyddiannus y *New Welsh Review* ers deng mlynedd. Dyddia mwyafrif y papurau o'r cyfnod rhwng 1978 a 1986, llawer iawn ohonynt o ddiddordeb gwleidyddol. Roedd Mr Reeves yn gynghorydd lleol gweithgar Plaid Cymru am nifer o flynyddoedd, a pharhaodd i ymddiddori mewn datganoli, addysg ddwyieithog a phynciau economaidd. Bu'n un o selogion ymgyrch Senedd i Gymru ac yn flaenllaw o fewn nifer o gyrrff eraill megis y St David's Forum. Cyhoeddir amlinelliad llawnach o'r papurau mewn rhifyn o'r *Cylchlythyr* yn y dyfodol.

Dr Thomas Jones CH

Mae'r Athro Ddr Adam Jones, Leipzig, wedi ychwanegu grwpiau pwysig o lythyrau at bapurau'r Dr Thomas Jones CH (1870-1955) sydd eisoes ym meddiant y Llyfrgell. Ceir yn eu plith ohebiaeth, 1930-38, rhwng TJ a'i fab Tristan (tad yr Athro Adam Jones), ynghyd â llythyrau,

1933-53, oddi wrth David Astor at TJ. Ychwanegwyd hwy at ddsbarthiadau WW2 a XX2-4 o fewn Papurau Dr Thomas Jones.

Adeilad y Cynulliad

Cyflwynodd yr Arglwydd Callaghan o Gaerdydd KG grŵp diddorol o bapurau, 1990-2000, yn ymdrin â dewis pensaer a chynllun ar gyfer Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol Cymreig ym 1998. Y pensaer llwyddiannus yn y pen draw oedd Partneriaeth Richard Rogers. Mae mwyafrif papurau'r Arglwydd Callaghan yng ngofal Llyfrgell y Bodley, Rhydychen.

Archif y Blaid Gomiwnyddol yng Nghymru

Cyflwynodd Mr Bert Pearce, cyn ysgrifennydd Cymreig y Blaid Gomiwnyddol, grŵp sylweddol pellach o bapurau yn rychwantu'r blynyddoedd 1940 a 2000. Ceir yn eu plith ffeiliau'n ymwneud â'r Blaid Gomiwnyddol a'r Chwith Democrataidd, datganoli, y mudiad heddwch a Rhyfel Fietnam, diwydiant, yn fwyaf arbennig y diwydiant glo yn ne Cymru, ac etholiadau lleol a seneddol. Disgrifir yr archif helaeth hon yn fanylach mewn rhifyn arall o'r *Cylchlythyr* yn y dyfodol.

Dŵr a Nwy

Derbyniwyd drwy law y Bwrdd Gwybodau Celtaidd gopi o adroddiad cynhwysfawr ar y diwydiant dŵr yng Nghymru, yn arbennig yn y gogledd-ddwyrain. Mr Owen Roberts oedd yr ymchwilydd a luniodd yr adroddiad dan oruchwyliaeth yr Athro Aled Jones a'r Dr Richard Coopey, Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Cyfeirnod yr adroddiad yw NLW ex 2118.

Mae Mr Richard Davies, Oriolau Cymru, wedi cyflwyno, ar ran Amgueddfa Genedlaethol Cymru, llyfr lloffion llawn toriadau o'r wasg cenedlaethol a Chymreig yn ymdrin â'r diwydiant nwy Prydeinig rhwng 1967 a 1969. Ei gyfeirnod yw NLW ex 2114.

Is-etholiad Ogwr

Diolch i gefnogaeth ddiplino ein rhwydwaith o gysylltiadau yn yr etholaethau, llwyddwyd i gasglu bron yr holl anerchiadau etholiadol ac effemera a gylchredwyd gan y pleidiau gwleidyddol yn ystod yr is-etholiad diweddar yn rhanbarth Ogwr yn dilyn marwolaeth Syr Ray Powell. Mae'r AWG bob amser yn croesawu derbyn deunydd pellach o'r math hwn.

Llythyrau J. E. Daniel

Drwy haelioni Mr J. I. Daniel, Bangor, derbyniodd y Llyfrgell grŵp pwysig o lythyrau, rhai o ddiddordeb gwleidyddol, wedi'u cyfeirio at J. E. Daniel, ysgolhaig Cymraeg ac un o selogion cynnar y Blaid Genedlaethol. Eu cyfeirnod erbyn hyn yw Llawysgrif NLW 23,870.

Ymgyrch Unoliaeth Cymru Nicaragua

Derbyniwyd, drwy law Mr Ben Gregory a Mr Mike Webb, bapurau ychwanegol, 1985-96, yn ymwneud ag Ymgyrch Unoliaeth Cymru Nicaragua a Grŵp America Ganol Môn ac Arfon. Disgwylir grwpiau pellach o bapurau yn y dyfodol agos. Hefyd cyflwynodd Mr Gregory gofnodion, 1998-2001, Ymgyrch Cymru Jiwibili 2000, mudiad rhyngwladol a argymhellodd diddymu dyledion rhyngwladol er mwyn sicrhau cychwyn diddyled i'r mileniwm newydd.